# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**11.15 y.b., DYDD GWENER, 8FED TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Y Brif Neuadd - Y Ganolfan, Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286679665**

**sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 1/11/19)

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

**AELODAETH**

## Cyngor Gwynedd

Cynghorwyr:
Dylan Bullard
E. Selwyn Griffiths
Annwen Hughes
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Angela Russell
Eirwyn Williams
Gethin Glyn Williams
Owain Williams

## Cyngor Ceredigion

Aros enwebiad

## Cyngor Sir Powys

Cynghorydd J M Williams

**Aelodau Eraill:**

| | |
|---|---|
| Dafydd Elis-Thomas | Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd |
| Dave Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Claire Britton | Rheilffordd Ffestiniog |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Aberystwyth/Amwythig |
| Lowri Joyce | Trafnidiaeth Cymru |
| Samuel Hadley | Network Rail |
| Helen Lewis | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Tudur O Williams | Ysgol Ardudwy |
| Pennaeth | Coleg Meirion-Dwyfor |
| Joyce Watson | Aelod Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen Mary Jones | Aelod Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Neil Hamilton | Aelod Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Stuart Williams | Rheilffordd Talyllyn |
| Roger Goodhew | Cymdeithas Teithwyr Aberystwyth/Amwythig |
| Sgt. Karl Anderson | Heddlu trafnidiaeth Prydeinig |
| Cyng. Freya Hannah Bentham | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Rob Newman | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig<br>Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| Cynghorydd Delwyn Evans | Grwp Mynediad Meirionnydd |
| Cynghorydd Trefor Jones | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**3. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw faterion sydd yn faterion brys yn nhyb y cadeirydd.

**4. COFNODION** 5 - 10

I derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018

**5. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

I dderbyn adroddiad gan Sam Hadley, Network Rail.

**6. ADRODDIAD GAN TRAFNIDIAETH CYMRU.**

I dderbyn adroddiad gan, Lowri Joyce Trafnidiaeth Cymru

**7. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

**8. CWESTIYNAU FFURFIOL** 11 - 14

I dderbyn ymateb i'r cwestiynnau sydd wedi eu cynnwys yma a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 30 Tachwedd 2018 o 11.15 a.m. tan 2.00 p.m.**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams - Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dewi Owen - Is-gadeirydd**

**Yn cynrychioli:**

Y Cynghorwyr Dewi Owen, Angela A. Russell, Eryl Jones-Williams, Owain Williams(Cyngor Gwynedd), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Cyng. Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Unllais Cymru), Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth), Claire Britton (Rheilffordd Ffestiniog), Delwyn Evans (Grwp Mynediad Meirionnydd), Alun Wyn Evans (Un Llais Cymru – Meirionnydd), Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru), Mr Sam Hadley (Network Rail), Y Heddwas Andy Greaves (Heddlu Trafnidiaeth Prydain) Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Mrs Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Mrs Llinos Williams (Cydlynydd Trafnidiaeth), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Sion Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd yn Bresennol: Cynghorydd Louise Hughes. (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Eirwyn Williams, Gethin Williams (Cyngor Gwynedd), Mr Tudur Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy), Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Ann Elias (GMW) Mr Stuart Williams (Rheilffordd Talyllyn),

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd ar gyfer 2018-19.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd ar gyfer 2018-19.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

**3. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.**

## 4. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL

Croesawyd Mr Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru, i'r cyfarfod ac fe adroddodd ar y materion isod:

- Fod y tywydd garw yn ystod Hydref 2018 wedi creu amgylchiadau heriol iawn.
- Fod effaith newid hinsawdd yn cael ei weld yn llwyth gwaith Network Rail a bod adolygiad wedi ei gomisiynu i edrych ar yr effaith i'r dyfodol.
- Nad oedd perfformiad y rheilffyrdd wedi bod cystal â'r gobaith, ond nododd nad oedd Rheilffordd Arfordir y Cambrian wedi ei effeithio mor ddrwg â llwybrau eraill.
- Fod cydweithio agos rhwng Network Rail a Trafnidiaeth Cymru, gan sicrhau fod llais cryf gan Gymru.
- Fod setliad uwch wedi ei dderbyn ar gyfer y cylch ariannu nesaf
- Fod Prif Weithredwr newydd wedi ei benodi yn Awst 2018, oedd wedi datgan bwriad i adolygu strwythurau'r corff. Nododd fod bwriad i weithredu yn fwy lleol i'r dyfodol, gan wella'r ffocws ar ei gwsmeriaid.

Mewn ymateb i sylw am Adolygiad Williams i mewn i reilffyrdd Prydain nododd y byddai'n gwneud ymholiadau ynglŷn â chynnal cyfarfodydd) gyda budd-ddeiliaid Rheilffordd Arfodir y Cambrian er mwyn rhoi mewnbwn i'r Adolygiad.

Croesawyd Mr Chris Wood, Rheolwr Prosiect (Prosiectau Isadeiledd) Network Rail i'r cyfarfod, a derbyniwyd cyflwyniad ar waith gosod Netin Creigiau diweddar a wnaethpwyd ar 6 safle yn ardal Aberdyfi. Roedd y gwaith yn angenrheidiol er mwyn uwchraddio'r hafnau creigiog a'r tir ar ymyl y lein i gydymffurfio gyda safonau modern, a'i ddiogelu ble nad oedd hynny'n bosib. Nododd fod y gwaith wedi bod yn heriol oherwydd yr amgylchedd, a'r safleoedd ble 'roedd y gwaith wedi ei wneud. Aseswyd y tir yn drylwyr fel rhan o'r gwaith paratoi, a defnyddiwyd dull gweithredol o reoli'r tir gydag oes dyluniad o 120 mlynedd er mwyn lleihau'r gofyn i aflonyddu ar drigolion lleol er mwyn gweithio ar y lein, a lleihau costau cynnal a chadw ac i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Llongyfarch Network Rail am wneud y gwaith mewn modd oedd wedi achosi ychydig iawn o anghyfleuster, a nodi diolch am wneud ymdrech ychwanegol i leihau aflonyddu ar drigolion lleol.
- Fod llawer o waith tacluso wedi ei wneud a bod hynny i'w groesawu gan ei fod wedi gwella edrychiad a diogelwch o gwmpas y lein
- Fod y gwaith gwella ar Arhosfan Penhelig] wedi ei groesawu'n lleol, a gwnaed cais i ddangos lluniau yn y cyfarfod nesaf.
- Fyddai'r llystyfiant a dorrwyd er mwyn gwneud y gwaith yn cael ei reoli i'r dyfodol?
- Fyddai polisi rheoli llystyfiant Network Rail yn dychwelyd i'r polisi torri 'ffens-i-ffens' oedd yn bodoli yn y gorffennol?

Mewn ymateb nododd Mr Hadley fod y llystyfiant o boptu'r lein wedi ei drin er mwyn ceisio sicrhau na fyddai'n tyfu'n ôl i'r un graddau. Ychwanegodd fod polisi clirio llystyfiant Network Rail yn datblygu i fod torri yn ehangach nag y bu yn y gorffennol.

## 5. ADRODDIAD GAN DRAFNIDIAETH CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Ben Davies, Trafnidiaeth Cymru, i gyflwyno ei adroddiad ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru hyd yma ac fe adroddodd ar y materion isod gan ganolbwyntio ar gynllun Trafnidiaeth Cymru am y tymor hir:

- Ei fod wedi trosglwyddo o Drenau Arriva Cymru, gyda chyfrifoldeb dros Ganolbarth a Gogledd Cymru.
- Fod Trafnidiaeth Cymru wedi cael dechrau anodd, gyda phedair wythnos o dywydd garw wedi arwain at ganran sylweddol o'u trenau wedi cael eu tynnu allan o wasanaeth er mwyn eu trwsio.

- Mai nod tymor hir Trafnidiaeth Cymru oedd gwasanaeth cynhwysfawr saith diwrnod yr wythnos gyda cherbydau newydd.
- Fod 421 o gerbydau newydd wedi eu harchebu, fyddai'n cael eu cyflwyno dros y pedair blynedd nesaf gan stopio defnyddio trenau dosbarth 158 ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.
- Fod Trafnidiaeth Cymru yn anelu i uwchraddio holl orsafoedd Cymru er mwyn gwella eu cyfleusterau a'u hedrychiad, yn ogystal â gwella gwybodaeth i deithwyr, cysylltedd diwifr a chyswllt cymunedol.
- Mai nod tymor hir Trafnidiaeth Cymru oedd datblygu rhwydwaith integredig gyda threnau a bysus yn gweithio gyda'i gilydd i greu un rhwydwaith.
- Byddai'r Gymraeg yn cael lle canolog gan y cwmni newydd.
- Ei fod yn gyfnod cyffrous, gan nad oedd wedi bod mewn sefyllfa ble 'roedd cyllid ar gael ar gyfer datblygiadau newydd o'r blaen, felly estynnodd gwahoddiad i fudd-ddeiliaid Rheilffordd arfordir y Cambrian i gyflwyno syniadau.

Croesawyd yr adroddiad gan y Gynhadledd, gan nodi'r sylwadau canlynol o'r drafodaeth:

- Fyddai posib rhannu manylion amserlen datblygu Rheilffordd y Cambrian i'r dyfodol pan fyddai ar gael?
- Pwy fyddai'n monitro teledu cylch cyfyng fyddai'n cael ei osod yn y gorsafoedd?
- Fyddai'r gwaith uwchraddio cysylltedd yn cynnwys mewnosod rhwydwaith 5G?
- Fyddai'r datblygiadau yn arwain at amseroedd teithio byrrach?
- Croesawyd y bwriad i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Croesawyd y bwriad i wella diogelwch, yn enwedig ar gyfer carfannau bregus o gymdeithas.
- Galw am bresenoldeb dynol ar bob platfform er mwyn gwneud i deithwyr deimlo'n saff.
- Beth fydd strwythur prisio tocynnau?

Mewn ymateb nododd Mr Davies:

- Byddai'r teledu cylch cyfyng yn cael ei fonitro yng Nghaerdydd, ond mai staff fyddai'n gwneud y monitro.
- Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law ynglŷn â mewnosod cysylltedd 5G
- Na fyddai natur Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn galluogi cyflymu llawer ar amseroedd teithiau oherwydd y nifer o orsafoedd ar y lein.
- Fod defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn bwysig i Drafnidiaeth Cymru.
- Byddai Trafnidiaeth Cymru yn gwella diogelwch gorsafoedd wrth eu huwchraddio, ond na fyddai'n bosib cyflogi staff ar gyfer pob gorsaf. Fodd bynnag, nododd y byddai gard ar bob trên fel rhan o'r cytundeb gwasanaeth.
- Roedd y strwythur prisio ac amserlenni wedi cael eu trosglwyddo yn uniongyrchol yn y lle cyntaf, a byddai Trafnidiaeth Cymru yn eu hadolygu yn eu tro.

## 5. ADRODDIAD Y RHEOLWR UNED TRAFNIDIAETH INTEGREDIG

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rhian Williams, Rheolwr Trafnidiaeth Integredig i'r cyfarfod. Adroddodd fod Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig y Cyngor yn bwriadu adolygu'r rhwydwaith bysus yn 2019. Ychwanegodd eu bod hefyd yn bwriadu cydweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i'r dyfodol.

## 6. ADRODDIAD SWYDDOG RHEILFFORDD Y CAMBRIAN

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Claire Williams, Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian.

Amlinellodd y gweithgareddau wnaed ers y cyfarfod blaenorol sef:

- Fod y gwaith o hyrwyddo'r Rheilffordd wedi parhau, gyda gwefan newydd wedi ei datblygu a'r tudalennau ar wefannau cymdeithasol wedi cyrraedd mwy o bobl. 'Roedd pwyslais Croeso Cymru gydag ymgyrch Blwyddyn y Môr yn 2018 o gymorth wrth hyrwyddo Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

- ‘Roedd Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian wedi penderfynu creu hysbyseb i’w dangos ar rwydwaith Sky yn ardal Swydd Amwythig. Ystyriwyd yr hysbyseb yn llwyddiant gan iddi gael ei gweld gan oddeutu 171000 o bobl.
- Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn yng ngorsaf Birmingham New Street o’r enw ‘Mynd a Glan y Môr i Birmingham’, a dyfarnwyd y digwyddiad yn ail yng nghategori ‘Ymgyrch Farchnata neu Gyfathrebu Orau’ gwobrau'r Gymdeithas Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol.
- Fod gwaith wedi ei wneud er mwyn asesu pa mor dementia cyfeillgar oedd Gorsaf y Drenewydd. ‘Roedd y profiad yn werthfawr er mwyn asesu gorsafoedd Rheilffordd Arfodir y Cambrian wrth i fwy o gymunedau anelu i ddod yn gymunedau dementia cyfeillgar. ‘Roedd Trafnidiaeth Cymru wedi cynorthwyo trwy gynnig teithio am ddim i’r rhai oedd yn asesu a chynorthwyo.
- Fod fideo wedi ei greu ar y cyd a Network Rail er mwyn hysbysu’r cyhoedd o beryglon croesfannau ar y rheilffordd, oedd yn parhau yn broblem.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi’r adroddiad a diolch i Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian amdano.**

## 7. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG

Estynnodd y Cadeirydd groeso i PC Andy Greaves o’r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig.

Cyflwynodd ei hun gan roi trosolwg o’i waith, gan nodi fod y nifer o droseddau ar leiniau Amwythig i Aberystwyth a Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn isel iawn. Y brif broblem ar Reilffordd Arfordir y Cambrian oedd tresmasu ar y lein wrth i aelodau’r cyhoedd gymryd mantais o lwybr y rheilffordd er mwyn canfod llwybr byrrach. ‘Roedd yn gobeithio y byddai’n bosib defnyddio technoleg er mwyn canfod pobl yn tresmasu yn gynt. Nododd y byddai’n hapus i sgwrsio gydag unrhyw un o aelodau’r Gynhadledd er mwyn trafod a cheisio datrys problemau.

## 8. CWESTIYNAU FFURFIOL

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan amryw o Gynghorau Cymuned a chafwyd yr atebion isod:

| | |
|---|---|
| **1** | **Cyng. Annwen Hughes – Cwestiwn i Network Rail** |
| | **“Beth yw'r diweddaraf erbyn hyn ynglŷn â gosod barriers ar groesfan Talwrn Bach”** |
| | Nodwyd mai'r pecyn o ddatblygiadau oedd yn cynnwys croesfan Talwrn Bach oedd un o’r ychydig rai i gael ei effeithio gan gwymp cwmni Carillion. Nid oedd y sefyllfa wedi newid ers cyfarfod blaenorol y Gynhadledd, ac y byddai’r gwaith yn cael ei raglennu ar ôl Ebrill 2019. Nododd Mr Sam Hadley ei fod yn cydymdeimlo gyda rhwystredigaeth y trigolion lleol, ac y byddai’n adrodd ar unrhyw gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Gynhadledd. |
| **2.1** | **Richard Williams, Cynghorydd Tref Porthmadog – Cwestiwn i Trafnidiaeth Cymru** |
| | **“Pam fod y gwybodaeth ar y system uchelseinydd yn uniaith Saesneg yn yr orsaf Porthmadog?”** |
| | Nodwyd y byddai cyhoeddiadau uchelseinydd i’r dyfodol yn ddwyieithog, yn unol â pholisi Trafnidiaeth Cymru. |
| **2.2** | **“Agwedd anghwrtais gan y person ‘Arweinydd Tocynnau ar y tren’ pan** |

| | |
|---|---|
| | **holais beth oedd y rheswm nad oeddwn yn cael defnyddio'r Cerdyn Teithio. (Pam fod teithwyr Blaenau Ffestiniog a Conwy yn cael eu defnyddio drwy y flwyddyn)"** |
| | Nodwyd fod y trenau presennol ar Reilffordd Arfodir y Cambrian yn rhy brysur i alluogi teithiau am ddim. Hyderwyd y byddai dyfodiad trenau gyda mwy o seddi yn galluogi cynnig yr un gwasanaeth i'r dyfodol. |
| **3.1** | **Cyngor Tref Porthmadog - Cwestiynau i Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a'r Pwyllgor** |
| | **"Dymunai Gyngor Tref Porthmadog dderbyn sicrhad gennych fod yr Iaith Gymraeg am gael ei defnyddio ym mhob agwedd o wasanaeth gan y gweithredwr trenau ar Reilffordd Arfodir y Cambrian**<br><br>**Dymunir gweld popeth yn ddwyieithog a dymunir gweld enwau llefydd yn cael eu hynganu/cyhoeddi mewn Cymraeg Cywir."** |
| | Nodwyd fod polisi Trafnidiaeth Cymru yn golygu fod hyn ar y gweill, a bod rhaid gwella'r ddarpariaeth fel rhan o'r trefniadau newydd. |
| **4.1** | **Cyng. Owain Williams – Cwestiynnau i Trafnidiaeth Cymru a Network Rail** |
| | **"A yw holl lenyddiaeth y Rheilffordd Cambrian yn hollol ddwyieithog? h.y. posteri, taflenni gwybodaeth ayyb. Os na, yna pryd gellir hyn ddigwydd?"** |
| | Nodwyd fod Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cydweithio gyda Claire Williams, Swyddog Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian a gweithredu ei pholisi o weithredu'n ddwyieithog. Bwriedid dechrau'r gwaith yn fuan. |
| **4.2** | **"A yw'r holl staff sy'n delio a'r cwsmeriaid ar Reilffordd y Cambrian yn Ddwyieithog? Os na, yna pryd y gellir disgwyl hyn?"** |
| | Nodwyd mai ychydig iawn oedd cyswllt Network Rail gyda'r cyhoedd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ychwanegwyd y byddai Netwrork rail yn gweithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru er mwyn rhoi wyneb cyhoeddus dwyieithog. |
| **5** | **R. Goodhew, Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Aberystwyth i'r Amwythig – Cwestiwn i Trafnidiaeth Cymru** |
| | **"Are there any plans to provide specific guidance for passengers who are travelling to and from the Cambrian Coast Line and the Cambrian Main Line west of Machynlleth in the next version of the printed pocket timetable (Dec 2018)? [any through carriages/change at Mach/Change at Dyfi Jn etc]** |
| | Nodwyd y byddai llawer o drefniadau oedd wedi eu hetifeddu gan Arriva yn cael eu hadolygu wrth i Drafnidiaeth Cymru ddechrau ar ei raglen waith, ac y byddai'r awgrymiadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Ychwanegwyd fod Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian eisoes yn cynhyrchu fersiwn o'r amserlen wedi ei chrynhoi ar gyfer teithwyr oedd yn newid o un lein i'r llall. |
| **6.1** | **Liz Saville Roberts A.S. – Cwestiynnau i Trafnidiaeth Cymru** |
| | **"Pa gynlluniau sydd gennych i wella diogelwch teithwyr gyda'r nos e.e. Teithwyr sydd yn aros mewn gorsaf rheilffordd anghysbell fel Cyffordd Dyfi a beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw welliannau?"** |
| | Nodwyd fod Cyffordd Dyfi yn broblem hanesyddol oherwydd ei leoliad anghysbell. Gobaith Trafnidiaeth Cymru oedd y byddai eu rhaglen waith yn arwain at wella'r sefyllfa yn ogystal â gwella'r cysylltiadau rhwng trenau ar Reilffordd y Cambrian a Rheilffordd Aberystwyth ac Amwythig. |
| **6.2** | **"Daeth i'm sylw yn ystod yr haf bod pobl ifanc yn chwarae ar y rheilffordd. Sut ydych chi'n cydweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig i addysgu plant a phobl ifanc o'r peryglon chwarae ar a ger rheilffyrdd?"** |

| | |
|---|---|
| | Nodwyd fod atal tresmasu ar y rheilffordd yn waith partneriaeth cyson, oedd wedi ei gyfarch yn adroddiadau'r Heddlu trafnidiaeth a Swyddog Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian. |
| **6.3** | **"Mae nifer o etholwyr yn cysylltu er mwyn mynegi eu profiadau o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn adrodd bod amserlenni trenau a bysiau er enghraifft ddim yn cysylltu'n effeithlon, gydag amseroedd aros hir iawn. Beth yw eich cynlluniau i wella cysylltedd trenau o Aberystwyth i Feirionnydd, a pha drafodaethau yr ydych wedi ei gael i wella cysylltedd gyda bysiau?"** |
| | Nodwyd fod gwaith yn mynd ymlaen rhwng y Rheilffyrdd, Traws Cymru a Chyngor Gwynedd er mwyn cydlynu amserlenni, ond bod natur fasnachol rhai llwybrau bysiau yn ei wneud yn anodd. Ychwanegwyd bod cais wedi ei wneud i fysus i aros am drenau cyn gadael cysylltfan. |
| **7** | **Cyng. Louise Hughes – Cwestiwn i Network Rail** |
| | **"Mae'r gymuned leol wedi codi pryderon mawr am sefyllfa goleuo gorsaf Llwyngwril, yn ogystal a chyflwr wal ger yr orsaf" – angen geiriad** |
| | Nodwyd fod Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi eu comisiynu i archwilio'r wal ac argymell datrysiad. Ychwanegwyd ei fod yn broses hir, ond bod deialog iach wedi ei gynnal ac y byddai'r gwaith yn cael ei raglennu pan fyddai'r gwaith datblygu wedi ei gwblhau a chyllid ar gael. Hyd nes byddai hynny'n digwydd, byddai'n broses o reoli'r risg. Mewn perthynas â goleuo'r orsaf nodwyd ei fod yn gynllun ehangach fyddai'n cynnwys goleuo'r llwybr at yr orsaf er mwyn gwella diogelwch yr ardal, gyda'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2019. Nododd Mr Sam Hadley y byddai'n fodlon mynd i gyfarfod y Cyngor Cymuned er mwyn clywed eu pryderon. |

**Penderfynwyd: Diolch am y cwestiynau ac am yr atebion ffafriol a gafwyd gan y swyddogion.**

CADEIRYDD

# Eitem 8

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES** |
|---|

1) Pa ddatblygiadau sydd ar y gweill ar y trenau i sicrhau gwasanaeth dwyieithog?
2) Pam fod yna gymaint o drenau yn cael eu gohirio mor aml ac yn rhedeg yn hwyr?
3) Pa bryd maent am roi darpariaeth ychwanegol ar y trenau i fedru cario mwy o feiciau?
4) Beth yw eu trefniadau nhw ynglŷn â chasglu sbwriel ar hyd y lein gan nodi problemau ger Cambrian Terrace ym Mhorthmadog.? (Nodwyd y gallai'r sbwriel fynd i mewn i'r Cyt a chreu problemau amgylcheddol).
5) Oes yna gynlluniau i gynnig gwasanaeth cyflym rhwng Pwllheli ac Amwythig yn y bore a gyda'r nos fel bod modd gwneud y siwrne mewn dwy awr yn lle tair?
6) Ydi'n bosib cael darpariaeth bwyd a diod o Bwllheli i Fachynlleth?
7) Pam nad ydi pobl sydd efo cardiau teithio am ddim yn cael eu defnyddio ar Reilffordd Cambrian trwy'r flwyddyn fel mae defnyddwyr y tren rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno ?

| **Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL** |
|---|
| |

| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING** |
|---|
| |

Oddiwrth / From:

CYNGOR TREF PORTHMADOG

clerccyngtreport@gmail.com Glenda Burke Clerc

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Sion Owen<br>Swyddog Cefnogi Aelodau / Members' Support Officer<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 28/10/19 |

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**

A fedrwn gael diiweddariad os gwelwch yn dda am gynlluniau y gweithredwr trenau ar gyfer stesion Criccieth

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

Mae consyrn ynglŷn â chyflwyr rhai o'r llwybrau cerdded o cwmpas stesion Criccieth:
Yr angen i wella cynnal a chadw y llwybrau canlynol: y llwbyr cul o'r maes parcio i'r stesion a hefyd yr ugain llath gynat o lwybr rhif 1 tuag at gyfeiriad Ysgol Treferthyr.

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyngor Tref Criccieth: clerccriccieth@gmail.com

…………………………………………………………………………………..

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Sion Owen<br>Swyddog Cefnogi Aelodau / Members' Support Officer<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 28/10/19 |

29 OCT 2019

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**

TRA MAE'R GWELLIANNAU YN Y GWASANAETH CYFATHREBU DRWY'R GYMRAEG I'W CROESAWU, — A OES MODD CAEL GWELL YNGANU O ENWAU LLEFYDD A GORSAFOEDD YN EIN IAITH? BUASAI DEFNYDDIO SIARADWYR SY'N RHUGL YN GYCHWYNIAD, — WEDI'R CYFAN PE TASA'R UN GWALLAU YN Y SAESNEG ... BE FUASAI'R ATEB?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

YR UN CWESTIWN

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

WARD CLYNNOG — A BRODOR O DDWYFOR

| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Sion Owen<br>Swyddog Cefnogi Aelodau / Members' Support Officer<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
|---|---|
| **Erbyn / By:** | 28/10/19 |

RK 19/09/2019

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**

A oes unrhyw gymhelliant i'r gweithredwyr trenau ddatblygu gwasanaeth tren uniongyrchol i'r canolfannau llywodraeth yng Nghaerdydd ac yn Llundain?

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Roger Goodhew, Shrewsbury to Aberystwyth Rail Passengers Association.

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Sion Owen<br>Swyddog Cefnogi Aelodau / Members' Support Officer<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 28/10/19 |